

Fund Criteria:

Thomas John Jones Memorial Fund

The Sefydlyd Cronfa Goffa Thomas John Jones ym 1944 er mwyn helpu pobl ifanc, yn yr hen Sir Frycheiniog, i astudio a hyfforddi ai gael gwaith yn y diwydiant peirianeg.

Mae hen sir Frycheiniog bellach yn cwmpasu ardal De Powys sy'n cynnwys ardaloedd Penderyn sydd bellach yn Rhondda Cynon Taf, Cefn-coed-y-seicmmer, Llwyn-onn, Pontsticill, y Faenor a Threfechan sydd bellach ym Merthyr Tudful, Princetown a Llechryd sydd bellach yng Nghaerffili, Clydach, Llanelly, a Gilwern bellach ym Sir Fynwy. Mae'r Gronfa hefyd bellach yn cwmpasu sir gyfan Blaenau Gwent.

Grantiau sydd Ar Gael

Gall unigolion yn astudio peirianeg neu ar gwrs gydag agwedd peirianeg arwyddocaol ymgeisio am grant o £3,000 y flwyddyn ar gyfer y ffurfiau canlynol o astudio:

- Lefel israddedig
- Lefel ôl raddedig
- HND
- PhD

Mae gofyn i ymgeiswyr a fydd yn astudio'n ôl raddedig gyflwyno datganiad ynghylch y rhaglen o astudiaeth a nodau ymchwil.

Fel arfer, bydd ymgeiswyr yn derbyn grant am gyfnod eu cwrs, yn amodol ar gadarnhad gan eu tiwtor eu bod wedi cwblhau'r flwyddyn ddiwethaf yn llwyddiannus a chadarnhad gan eu coleg bob blwyddyn eu bod yn dal ar y cwrs.

Mae grantiau'n cael eu dyfarnu ar gyfer cyrsiau penodol ac ni ellir eu defnyddio at unrhyw ddiben arall heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolwyr.

Pwy a all ymgeisio?

Mae grantiau ar gael i fyfyrwyr sy'n byw neu wedi boc mewn ysgolion yn ardaloedd cymwys Sir Frycheiniog neu Blaenau Gwent.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr fod yn astudio peirianeg neu gwrs gyda chefnidir peirianeg arwyddocaol.

Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais erbyn y dyddiad cauos byddwch wedi methu'r terfyn amser,

Noder:

- Bydd yn rhaid i ymgeiswyr sy'n ymgeisio am grant ar gyfer cwrs ar lefel Ôl-raddedig fod wedi derbyn gradd anrhydedd dosbarth 1af neu 2.1.
- Ni ddylai ymgeiswyr fod yn derbyn arian gan y llywodraeth

- Dylai ymgeiswyr llwyddiannus hysbysu'r Ymddiriedolwyr gynted â bo modd o unrhyw newid yn eu hamgylchiadau sy'n effeithio ar eu hastudio, megis newid cwrs, methu arholiad neu salwch.
- Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n dangos orau sut maen nhw'n cyfarfod ag amcanion y Gronfa, ac sy'n dangos orau yr angen ariannol a chymdeithasol y bydd y grant yn eu diwallu.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol
- Ni fydd grantiau'n cael eu rhoi yn ôl weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes yn ddyledus cyn derbyn y llythyr cynnig grant a llofnodi'r telerau ac amodau.